Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu ddrwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/07/2015**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli ger tref farchnad Y Trallwng, Powys yw Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh. Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi ar gyfer bechgyn 11 i 18 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ac anghenion dysgu ychwanegol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys anawsterau lleferydd ac iaith ac anawsterau cyfathrebu.

Mae'r ysgol yn addysgu naw disgybl ar hyn o bryd, y mae pob un ohonynt yn fechgyn sy'n byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol. Mae dau ddisgybl dros 16 oed. Mae gan bum disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae tri athro wedi gadael yr ysgol. Mae athrawon newydd wedi'u penodi yn lle'r tri athro.

Mae'r ysgol wrthi'n gwneud gwaith adeiladu i greu canolfan i'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig ac i ychwanegu ystafell ddosbarth ychwanegol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae staff addysg, gofal a therapi yn gweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd
- Mae perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn helpu disgyblion i fagu hyder a hunan-barch ac i wneud cynnydd
- Mae disgyblion yn ymateb yn dda i arferion yr ysgol a'r lleoliad gofal
- Maent yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n dda â'r dysgu
- Maent yn datblygu medrau cymdeithasol da iawn ac yn foesgar wrth groesawu ymwelwyr i'r ysgol
- Mae gan y Pennaeth Addysg ddealltwriaeth dda o feysydd i'w datblygu yn yr ysgol, ac mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi meysydd addas i'w gwella
- Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd priodol sy'n helpu disgyblion i ddysgu

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Profiad addysgu cyfyngedig y mae'r rhan fwyaf o athrawon wedi'i gael cyn dod i'r ysgol
- Nid oes dealltwriaeth ddigon da gan bob aelod o staff o feysydd pwnc unigol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd
- Er bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cynnwys targedau llythrennedd a rhifedd priodol, megis dechrau y mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- Nid yw staff yn cael digon o gyfleoedd i arsylwi ar arfer dda mewn lleoliadau

eraill

- Nid yw cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a gwaith disgyblion eraill wedi'u datblygu'n ddigonol

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1 Cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn gan bob athro o feysydd pwnc perthnasol fel eu bod yn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer dilyniant

A3 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion

A4 Darparu cyfleoedd i staff arsylwi ar arfer dda mewn lleoliadau priodol eraill

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr, pan mae'r addysgu yn dda neu'n well, bod athrawon yn rhannu'r arfer dda hon ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno arsylwadau rheolaidd o gymheiriaid. Caiff yr holl athrawon eu cynnwys yn y broses. Mae athrawon yn cael adborth llafar ac ysgrifenedig. Mae'r Pennaeth Addysgu yn coladu'r wybodaeth bob tymor ac yn nodi arfer dda a meysydd i'w datblygu ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn trafod y wybodaeth hon yn ystod cyfarfodydd staff. O ganlyniad i'r arfer hon, mae athrawon wedi rhoi sylw i feysydd penodol i'w datblygu, er enghraifft y defnydd o wobrau a chynlluniau eistedd.

Mae staff newydd yn cael y cyfle i addysgu ochr yn ochr â'r Pennaeth Addysgu. Mae hyn yn eu helpu i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio dulliau addysgu gwahanol.

**Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod adborth ysgrifenedig manwl yn cael ei roi i ddisgyblion ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi diweddaru ei pholisi marcio. Mae athrawon yn darparu sylwadau llafar ac ysgrifenedig defnyddiol, gyda ffocws ar atgyfnerthu cadarnhaol. Mae disgyblion yn teimlo bod y sylwadau calonogol hyn yn eu helpu i fagu hyder ac i wneud eu gorau. Fodd bynnag, nid yw'r polisi'n ddigon penodol i sicrhau bod marcio yn gyson ar draws yr ysgol. Nid yw'r marcio yn dweud wrth ddisgyblion yn gyson beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r rheolwr addysg yn cynnal archwiliad misol o farcio gwaith disgyblion ac yn darparu sylwadau i'r athrawon ar eu marcio yn ystod cyfarfodydd rheoli llinell. Fodd bynnag, nid yw'r broses hon yn rhoi digon o arweiniad i staff ar sut dylai marcio helpu disgyblion i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cynnwys targedau dysgu penodol sy'n dangos camau bach o gynnydd y gellir eu hadolygu'n effeithiol ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau sy'n benodol ac y gellir eu mesur, gyda ffocws priodol ar lythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn adolygu'r CAUau bob dau fis. Caiff disgyblion eu cynnwys yn y broses.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno taflen 'Help i Ddysgu' i ddisgyblion ei chwblhau. Mae hon yn annog disgyblion i nodi ble mae angen cymorth ychwanegol arnynt, ac mae'n helpu i lywio targedau CAU. Mae copïau o'r CAUau gan bob aelod o staff a disgyblon, felly gellir cyfeirio atynt ym mhob gwers.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh |
| **Rhif yr ysgol** | 666/6042 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 05/05/2015 |
| **Perchennog** | Amberleigh Care |
| **Staff** | Pennaeth Addysg, rheolwr addysg a 5 aelod o staff addysgu amser llawn<br>2 therapydd<br>Staff gofal |
| **Nifer y disgyblion** | 9 |
| **Darpariaeth** | Lleoliadau preswyl 52 wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, mân anawsterau dysgu i anawsterau dysgu cymedrol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/03/2011 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 02/04/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/03/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Mr  Huw Davies | Arolygydd Tîm |